



Mai 2013

Croeso i'r cyntaf o'n cylchlythyrau electronig. Byddwn yn cynhyrchu un bob mis i wella'n cyfathrebu gyda'r diwydiant pysgota ac yn rhoi gwybod i chi am ein cynnydd hyd yn hyn a'n prosiectau nesaf. Bydd yr hwb cyfathrebol hwn yn mynd ochr yn ochr â'r diweddariadau mwy rheolaidd ar ein tudalen gwe: <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk> a chylchlythyr argraffedig bob chwarter.

Holiadur Pysgotwyr

Amcan: Datblygwyd holiadur gwybodaeth pysgotwyr i gael gwybodaeth gan bysgotwyr am weithgaredd pysgota, y defnydd o abwyd, pwysigrwydd economaidd, gwrthdaro buddiannau, ardaloedd meithrin a llwybrau mudo. Mae'r holiadur yn cynnwys ymarfer mapio ble mae ardaloedd pysgota presennol a rhai hanesyddol yn cael eu mapio a ble ceir gwybodaeth sy'n ymwneud â'r rhywogaeth darged. Defnyddir yr wybodaeth hon i lywio'r cynllun arbrofol y prosiectau'r rhywogaethau unigol a darparu gwell dealltwriaeth o weithgaredd gofodol pysgota o amgylch Cymru ac ecoleg leol rhywogaethau a dargedwyd. Er enghraifft, mae maint trachywir y pysgodfeydd yn bwysig ar gyfer cynllunio asesiadau addas gyda'r diwydiant. Dylai canlyniadau'r holiadur roi rhestr o weithgaredd i'r diwydiant ledled Cymru a thynnu sylw at bwysigrwydd y pysgodfeydd.

Cynnydd: Cafodd y ffurflen cydsyniad bellach ei chwblhau a thri holiadur peilot eu gwneud gyda chynrychiolwyr y diwydiant pysgota o'r SUAG. Arweiniodd canlyniadau hyn at fireinio'r holiadur, a anfonwyd wedyn at y cwmni datblygu meddalwedd a fydd yn cyflwyno'r holiadur terfynol ar gyfrifiadur erbyn 15 Mai 2013. Bydd y diwydiant pysgota yn penderfynu'r raddfa a'r eglurder y bydd y data ar gael yn gyhoeddus. Mae ffurflen cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi ei chynhyrchu a fydd yn caniatáu i Brifysgol Bangor warchod y wybodaeth a roddwyd yn yr holiadur; mae'r ddogfen hon hefyd yn amlinellu sut y bydd data yn cael ei ddefnyddio, ei rannu a'i gyhoeddi.

Gwaith i'r dyfodol: O fis Mehefin tan fis Awst byddwn yn cynnal yr holiadur i bysgotwyr ledled Cymru. Rydym eisiau i chi gymryd rhan. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, yna cofrestrwch drwy'r wefan neu anfonwch e-bost at fisheries@bangor.ac.uk.

Gwarchod data

Amcan: I sicrhau cyfrinachedd data'r pysgotwyr fel bod unrhyw arddangosfeydd (graffiau, mapiau) a gynhyrchir gyda dadansoddiad addas i gadw'r preifatrwydd hwn.

Cynnydd: Mae cyfarfodydd wedi cychwyn i gynllunio gwarchod data addas ym mhob maes o'r prosiect. Mae hyn i sicrhau fod unrhyw ddata a gasglwyd gan y Grŵp Gwyddonol Pysgodfeydd a Chadwraeth yn cael eu dangos ar raddfa ac eglurder addas. Bydd hyn yn sicrhau fod data fel CPUE (daliad fesul uned ymdrech) a lleoliad pysgota ar gael mewn fformat sy'n gwarchod cyfrinachedd y pysgotwyr unigol.

Y dyfodol: Bydd adran y gyfraith ym Mhrifysgol Bangor yn cynhyrchu ffurflen cydsyniad ar sail gwybodaeth i sicrhau gwarchod data'r pysgotwyr.



Cramenogion

Amcanion: Mae system camera ar gwch yn cael ei ddatblygu i asesu pysgodfeydd crancod a chimychiaid. Mae'r camera yn gwneud ffilm o'r ddalfa i gyd, y rhai a ddaliwyd a'r rhai oedd yn rhy fach, ac mae'r fideo'n cael ei ddadansoddi i gasglu data maint, rhyw a chyflenwad a fydd yn ffurfio sail asesu statws stoc a'i ddefnyddio i greu mynegai recriwtio.

Cynnydd: Mae arbrofion a dilysu'r system camera bron wedi eu cwblhau. Rydym yn aros am dywydd braf i'n galluogi i gyflawni diwrnod o fesuriadau dilysu ar y môr. Hyd yma rydym wedi peilota'r system i fesur cyflenwad crancod a data rhyw, o fideo diwrnod o halio cewyll o long ar Benrhyn Llŷn. Roedd hyn yn caniatáu i ni ganfod a datrys unrhyw broblemau gyda'r weithdrefn.

Gwaith i'r dyfodol: Unwaith mae casyn y camera wedi ei gwblhau byddant yn cael eu ffitio ar gychod pysgotwyr crancod a chimychiaid a fydd yn recordio un diwrnod o bysgota'r mis. Bydd y cardiau cof yn cael eu dychwelyd i Brifysgol Bangor i'w dadansoddi.



Cregyn bylchog

Amcanion: I gynnal arbrawf pysgota ym Mae Ceredigion er mwyn sefydlu pa ddwysedd pysgota a all fod yn dderbyniol ac yn amgylcheddol gynaliadwy i Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion. Dylai'r gwaith arfaethedig gynnig y dystiolaeth sydd ei angen ar gyfer y broses gwneud penderfyniad gwleidyddol sy'n ymwneud â rhanddeiliaid perthnasol. Yr amcanion yw:

1. Asesu effaith amgylcheddol treillio am gregyn bylchog ar wahanol lefelau dwysedd yn yr Ardal Cadwraeth Arbennig drwy fonitro cymunedau gwely'r môr cyn ac wedi pysgota
2. Penderfynu cyfraddau adfer yn yr Ardal Cadwraeth Arbennig wedi gwahanol lefelau o ddwysedd drwy fonitro safleoedd penodol dros gyfnod o 2 flynedd.

Prif ddylanwad yr astudiaeth hon yw rhoi gwybod i'r diwydiant cregyn bylchog am eu heffaith ar wely'r môr yn Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion a'u cynorthwyo, ynghyd â Llywodraeth Cymru, i benderfynu ar lefelau derbyniol o bysgota yn seiliedig ar effaith amgylcheddol uniongyrchol a gwytnwch yr ardal.

Cynnydd: I allu cynnal yr arbrawf, mae'n rhaid gwneud asesiad addas. Mae'r adroddiad am yr asesiad priodol yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd, gan gynnwys pob tystiolaeth sydd ar gael ar fathau is-haen yn yr ardal arbrofol arfaethedig. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys, a bydd yn cynnwys, dadansoddiad o fideo'r pysgotwyr (sled fach), data sgan ochr a mapiau OLEX a wnaethpwyd ar gael gan bysgotwyr. Bu cyfarfodydd llwyddiannus gyda'r diwydiant i gael cefnogaeth, ymroddiad a mewnbwn gan y rhan fwyaf o bysgotwyr cregyn bylchog Cymru. Diffiniwyd

targedau a dyddiadau cwblhau. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd hefyd gyda Llywodraeth Cymru a'r CCGC/CNC i sicrhau cydweithrediad pawb sydd a wnelont â'r arbrawf.

Gwaith i'r dyfodol: Cynhelir yr arbrawf mewn cydweithrediad â chychod pysgota cregyn bylchog Cymru. Y cynllun yw agor rhannau o ochr gorllewinol yr Ardal Cadwraeth Arbennig sydd wedi ei gau ar hyn o bryd i bysgota dan amodau arbrofi wedi eu rheoli (h.y. ymdrech cyfyngedig) ym Mis Hydref 2013. Bydd angen samplu dwys gyda'r Cwch Ymchwil, y Tywysog Madog cyn ac ar ôl agor yr ardal.



Draenogiaid y môr

Amcanion:

1. I ganfod silfeydd bach o ddraenogiaid y môr oddi ar arfordir De Orllewin Cymru ac i ganfod presenoldeb posibl stoc o ddraenogiaid y môr. Bydd hyn yn cynnig mewnwelediad i leoliad silfeydd dros ddwy flynedd yn olynol. Bydd hefyd yn cynnig mewnwelediad i gysylltedd rhwng unrhyw silfeydd bach a ganfyddir a rhwng y silfeydd hynny a manau bwydo arfordirol.
2. I ddiffinio gwahaniaethau isotopig posibl rhwng draenogiaid y môr o'r gogledd, canolbarth a de Cymru a fydd yn cynnig mewnwelediad i batrymau mudo, cysylltedd rhwng ardaloedd a ffyddlondeb i fannau bwydo.

Cynnydd: Cysylltwyd â physgotwyr masnachol a rhai hamdden o Ogledd i Dde Cymru. Rhoddwyd pecyn ar gyfer casglu data biolegol i ddeuddeg physgotwr masnachol a hamdden sy'n pysgota gyda'r glannau. Roedd pob pecyn yn cynnwys:

Un cofnodydd data GPS i gofnodi trac pob taith bysgota a lleoliad penodol y dalfeydd, 20 o amlenni ar gyfer cen i gasglu cen oddi ar bob draenogiad môr a ddaliwyd, 20 o fagiau i gasglu'r coluddion a'r organau rhyw o bob draenogyn môr a ddaliwyd, 20 tiwb yn cynnwys ethanol (100%) i gasglu darnau bach o'r esgyll ar gyfer dadansoddiad genetig (mewn cydweithrediad â phrosiect Aquatrace), 1 gyllell blastig (ar gyfer y cen), 1 tâp mesur (i fesur hyd cyfan pob draenogiad môr), 1 pensil i ysgrifennu'r data, 1 llyfr cofnodion bach i gofnodi cyfanswm y daliad o bob dalfa, llawlyfr canllaw cyflawn ar gyfer casglu data.

Mae samplau o bedwar draenogiad môr o Benrhyn Llŷn wedi eu dychwelyd yn barod i Brifysgol Bangor.

Gwaith i'r dyfodol: Bydd samplau newydd yn parhau i gael eu casglu gan y physgotwyr.

